GANIADAU SION;

Sef,

CASGLIAD

O

HYMNAU

Ac

ODLAU

YSPRYDOL.

Gan JOHN THOMAS.

Canaf am Drugareddaa Barn. Pſal. 100. 1.
Mawl a'th erys di yn Sion, O Dduw. Pſal. 65. 1.
Molianned y Bobl di, O Dduw. Molianned yr holl Bobl dydi. Pſal. 67. 3.

Argraphwyd yng Nghaerfyrddin
gan Evan Powell, yn y Flwyddyn 1759.

HYMN. I. *Mawl i fab Dafydd.*

DEFFRO f' Enaid cân yn ufudd,
I Fab Dafydd Seinia Glôd;
Yr hwn ddioddefodd ag a dalodd
Dy holl ddyled cyn dy fod;
Nid a phethau gwael llygredig,
Ond a gwerthfawr Waed yr OEN;
Y prynwyd f' Enaid o gaethiwed,
Oedd ffaf i bechod blin a'i boen.

2

Yr olwg arno fydd yn hawddgar;
Ddydd a Nôs i lygaid Ffydd;
Datodwr holl weithredoedd Diafol,
Gollyngwr caethion tlawd yn rhydd;
Cyd ymdeimlo a'r gwanna o'i bobl,
Y mae 'r Brenin mawr ei glôd;
Fel ninnau ymhob peth câ'dd eu demtio,
Etto heb bechod yntho 'n bod.

3

Efe yw 'r Meddig anwyl tirion,
A'i Waed ei hun fydd yn jachau,
Pawb a gredant yntho 'n ffyddlon:
'Fydd marw un o'r cyfryw rai;
Pwy benna gwympo mae fe'n fefyll,
Dinas noddfa 'r Enaid tlawd,
Ffrynd erbyn c'ledi aned inni,
Cyfaill 'lŷn yn well na Brawd.

4

Efe yw 'r Brenhin Hollalluog,
Ar uffern dœ'r a Nefi gyd,
Yr Oen aeddfwyn a thrugarog,
Sydd yn dileu Pechodau 'r Byd;
Mae'n abal achub hyd yr eitha,
Ei ewyllys nid yw ronyn llai,
Ni wrthod neb or rhai ddel atto,
Ei Lef fydd at golledig rai.

Dat-

Datgyddio mae ef wir Dryſoraŵ
Teyrnas Nefoedd i rai bach,
Gwrando 'r gwael yn eu ryddfanau
Gwneud yr afiach yn holl jach
Nid yw 'n diyſtyru 'r pethau bychen
Ni ddryllia'r gorſen yſig wan
Mae 'n ymhyfrydu o hyd i roddi
Eu Law i godi 'r tlawd i'r lan.

6

'Does jechydwriaeth yn neb arall
Nag un enw tan y Nêf
i ollwng tlodion caeth yn rhyddion
O tan y felldith neb ond ef
Chwi Waredigion cyd foliannwch
Rhyfeddwch ei anfeidrol Râs
Does dâl 'i garu ond hawddgar JESU
Fu 'n chwyſu 'r gwaed i'r ddaear Lâs.

7

Nêf a daear cyd ddercheſwch
'R hwn gym'rodd arno agwedd gwâs
Y Tâd gâ'dd yntho ei lwyr foddloni
Mae yn cyhoeddi hyn i maes
Yr hwn fy'n Faban yn y Preſeb
Trwy farw ar *Galfaria* draw
Gorchfygodd uffern a'i chreulondeb
A'n pardwn cododd yn ei law.

Hymn 2. Gwagder y creaduriaid neb ond Criſt.

1

O! 'R fâth wrthrychiau gwael ſy myn'd
A nghalon oddiwrth ffyddlon ffrynd,
Yr Oen ſu farw yn fy llê,
Does dâl ei garu fel efe.

2

'Efe aeth tan ein dwſn wae,
I'n codi i'w *Orſedd* waeledd ral;

Ond coſtodd iddo werthfawr Waed.

3

Y ſawl edrychant arno ef,
A gedwyr fel mewn noddfa gref;
Pob rhai a'th garant Jeſu cu,
Gant Nefoedd ar y ddaear ddu.

4

Yr holl greaduriaid gwagedd y'nt,
Yn myned heibio fel y gwynt;
Eu tegwch oll ſy'n gwiſgo ma's
Fel gwiwa llyſiau 'r ddaear lâs.

5

Dyſg i mi roddi 'maich yn lân,
Ar d'yſgwydd Arglwydd fel o'r blaen;
Tyr'd ſ' Enaid i'th orphwysfa glŷd,
Pa ham y crwydru gyrrau 'r Bŷd.

6

Mae pob peth da ynghadw 'n ſtôr,
i bawb o'r rhai a'th ofnant Jôr;
Er gwaetha 'r holl Uffernol gryw,
'Fydd eiſlau byth ar deulu DUW.

7

Ys truan wyf pam crwydra i'n ll'yn,
Ar ol gwrthrychiau gwael fel hyn,
Rhwym ſ' Enaid wrth dy groes yn glau
Cyn collwyf Arglwydd dy ſwynhau.

Hymn 3. *Er anogaeth i fod yn Amyneddgar tan y Groes.*

1

OS mynny 'r Jeſu cwyd dy Groes;
Nag ofna loes gorthrymder;
Am hyn mae gwobr oddiwrth Dduw,
Sydd fwy nag ydyw 'r blinder.

2

Na rwgnach ddim os byddu gaeth,
Can erlidgaeth anfad;

Gweled

Am hyn mae caethder arnad.

3

Yn rhwydd ymoſtwng i Dduw hael,
Os mynny gael eſmwythder;
Tros byth mae'r daledigaeth wiw,
Amſerol yw'r gorthrymder.

4

Bydd amyneddus yn Nuw cun,
Ar fyrr daw tertyn cyſtydd;
Pan elo'r Seintiau fyn'd o'r Byd,
C'ant wynfyd a llawenydd.

5

Cais gan Dduw byro d' Enaid byw,
Oddiwrth bob rhyw fydreddi;
'Does dim a all jachau dy friw,
Ond gwaed Mâb Duw trwy gredu.

6

Cyn galle'r ſaint uwch wybren fry,
Gael Neſoedd i meddiany;
Eu gynau oll yn wyniou wnaed,
Yng werthfawr Waed yr Jeſu.

Hymn. 3. *Yr Ail Ran.*

CHAIFF neb breſwylio gyda'r jôn,
O fewn i *Sion* addas,
Heb law rhai fo a Duw 'n eu myſg,
A chanthynt wiſg Briodas.

2

Cyfiawnder Criſt yw 'r gwiſgoedd hyn,
Gwaed Jeſu gwyn yw 'r bywyd,
Ar Deyrnas anllygredig yw;
Mwynhad o Dduw mewn hawddfyd.

3

Rhai hyn a fuant gynt ar goll,
Cannaſant oll eu gwiſgoedd.

Yngwaed

O'i cyſtydd mawr i'r Nefoedd.

4

I lawenydd o drymder triſt,
At Jesu Grist o ddiſtryw;
O drallod Byd i'r Nefol lŷs,
Cyſnewid hapus ydyw.

5

C'ant yn lle'r galar nefol gân,
C'ant yn lle'r cwynfan fawredd;
C'ant foli Duw mewn Nefol Dre,
Sef Sion le cyſannedd.

6

O fewn i'r *Ganaan* bûr can't foed,
Cânt oſod allan yno;
Fâwl tri yn un mewn nefol gainge,
Ger bron gorſeddfaingc *Jago*.

Hymn. 4. *Diogelwch Sion.*

1

CYD ſeiniwch *Sion* Blant yr heddwch,
I glodfori Brenhin Ne,
Am iddo fyn'd yn Aberth troſom;
A rhoddi fywyd yn ein lle
O moliennwch byth ei Enw
Am iddo golli werthfawr Waed,
Cewch fyw 'n drag'wyddol yn yr heddwch,
A wnaeth ef rhyngoch chwi ai Dâd.

2

Drwy ſydd wedi agor i chwi
Nad oes un Gelyn all eu gau,
Mae'r ffordd yn rhydd i wlad Goleuni,
O! ddedwydd Etholedig rai;
'Ch Llinynnau ſyrthiodd mewn lle hyfryd
Tifeddiaeth roddwyd i chwi 'n Rhad,
'Does ar y ddae'r nag Uffern obry
Neb all eich drygu Duw yw'ch Tâd.

3. Yr

3.

Yr hwn a'ch Prynodd ar *Golfaria*,
Yn ſigail hefyd arnoch ſy,
Ni chull ef un o'i anwyl ddefaid,
Maent ar ei galon dyner fry;
Wrth eu henwau mae 'n eu galw
Llais eu pen adwaenant hwy,
Tragywyddol fywyd rhoddodd iddynt
Pwy ddychon gwrdd a'u heiniocs mwy.

4

Er iddynt gwrdd ag amal ddrygau
Wrth deithio tua 'u Cartre clud,
Mewn chwech a ſaith o gyſyngderau
Ca'nt eu gwaredu o'r rhain i gyd;
Ei fwyn ddwg Jeſu yn ei fynwes
A'i ddefaid ymgyledda efe,
Nes myn'd yn jach yw hardd *drigfannau*,
Sy'n barod iddynt yn y Ne.

5.

Er bwrw rhai o honynt weithiau
Gan Satan i garcharau blin,
Tros ddeng Niwrnod mae Cyſtuddiau
O Wallt eu pennau 'chollir un;
Fel Aur puredig deuant allan
Cânt G'ronau yn y Nefoedd fry,
Eu gwaith heb dewi byth fydd moli
Yr Oen fu farw ar *Golfari*.

6

'R holl ffyddlon ſeintiau hyd Ddydd Angau
A geſglyr yma yn gytun,
Cânt wiſgo gynau hardd goronau
Ar eu pennau bob yr un;
Pawb fydd yno 'n un o galon,
'Ddaw gelyn byth roi iddynt glwy,
Yno derfydd gwag ddadleuon
Ffarwel pob ungharied mwy.

AR

Hymn. 5. *Dedwyddwch gwraig yr Oen.*

1

AR fyrr ceir gweld y Wraig fy'n glâf
Yn holl jach braf heb Fethiant;
Ynghoel ei phriod Criſt ei phen,
Yn llawen mewn gogoniant.

2

Y Briodas-ferch fydd pryd hyn,
I gyd yn wyn o drwyſiad;
A choron ddiſglair ar eu phen
Yn llawen gyda i chariad.

3

O wynfydedig wraig yr Oen,
Er maint ei phoen a'i gofyd;
Hi fydd yn gyflawn cyn bo hir
A'i Braint yn Nhir y bywyd.

4

Yn dlawd a thruan er ei bod
Cytoethog yw ei phriod
Fe 'i golchwyd yn ei werthfawr waed,
jachawd hi 'n rhâd o'i Nychdod.

5

Ar fyrr daw 'r Drenhin mawr ei glod,
I hôl ei briod Adre;
Ei braint ni chlywodd Cluſt erioed,
Mae'n barod ei thrigfannau.

6

Cerubiaid ag Angylion fry,
Ro'nt iddi le i flaenori;
Llu 'r Nef ryfeddant bawb o'r trwch
Wel'd tegwch Priod Jeſu.

Hymn. 6. *arall ar yr un yſtyr*

ODdedwydd rai fy'n myn'd o hŷd,
Yn Bererinion yn y Bŷd;

Dieth-

Dieithriaid y'nt ga'dd pron 'n rhâd,
Flaen daſt o Ffrwythau *Canaan* wlâd.

2

Mewn Gorthrymderau llawenhant,
Eu llonni a Neſol win a gant;
Can's cariad Jeſu ſy'n parhau,
Cydweithia pob peth yw lleſhau.

3

Os mewn blinderau rif y gwlith
Ei Braidd ni anghofia Jeſu byth;
Yr hwn fy farw troſtynt hwy,
P'odd gall ef ei hanghofio mwy.

4

Er iddynt mewn anialwch maith,
Gwrdd amal ddrygau ar eu Taith,
Eu Gwared cant oddiwrthynt oll,
Nid a o honynt un ar goll.

5

Byw fyddant hwy er Dŵr a Thân;
Eu bugail Jeſu aeth o'i blaen,
Fe gyd ymdeimla a hwynt mwy,
Ym mhob gorthrymder elont trwy.

6

O wraig yr Oen mawr yw ei chlod,
Ma'i gyda Duw mewn parch erioed;
Er iddi yn y Byd gael gwawd,
Mae erbyn c'ledi iddi Frawd.

Hymn. 7 *Cwymp Babilon llawyddiant yr Efengyl.*

1

Bydd gwae i'ch *Fabiloniaid*,
Gelynion Jeſu mawr:
Cair Gweld eich gwarrau 'n plygu,
Gwell taflu 'ch Arfau lawr:
Daw capten Jechydwriaeth
I'r Frwydr cyn b'o hir,

'R Efengyl ynnill Tir

2

Caiff Pechaduriaid etto,
A hynny ar fyrr Dro,
Wel'd Dyddiau y *Meſia*,
A theimlo ei Allu 'fo:
Mawr Lwyddiant i'r Efengyl,
Yn rhigil aiff ar led,
Daw Torf i ganlyn Jeſu,
Tan ganu, *ſ' Enaid cŕêd.*

3

Brenhinoedd ſy'n cynhyrfu,
Mewn terfyſg ymma a thraw,
Cenhedlig Dduwjau 'n crynu,
Eu Diwedd ſydd gerllaw:
Ffyrdd Jeſu ſy'n y Dyfnder,
Mae 'n cloddio tan eu ſail,
Caiff *Babel* farwol Ergid
Ar fyrr gan *Adda 'r Ail.*

4

Er cryſed yw ei Myrriau
Hwy wnai'r yn ddryllíau mân;
A hyn trwy wael Offrynau;
Fel *Jericho* or blaen;
Fel maen mewn Môr yn ſoddi
I ryw ddyfnderodd mawr,
Fel hyn daw diwedd arni
'N ddiſymwyth mewn un awr.

5

D'wed Arglwydd a gaf weled,
Tro'i 'n teithio is y Nen,
Cyn gorphen ar fy ſiwrnau
Y Dyddiau 'n do'd i Ben:
Y *Maeſydd etto yn wynion*,
Cynhaeaf Mâb y Dŷn
Gelynion wedi maeddu,
Heb ado 'hònynt un.

Rw'i

6

Rwi'n credu doed a ddelo,
Ceir gweled hyn ryw Brŷd,
Efengyl Jesu 'n llwyddo,
Mewn Gallu 'r hyd y Byd;
Fe ddywedoedd *Crist* ei hunan
Pan ydoedd ymma yn byw,
Y cae y rhai a *gredent*,
I wel'd *gogoniant Duw.*

7

Pwy wyr pa lwyddiant welwn,
(Dilgwyliwn etto dro;)
Ar bur Efengyl Jesu,
Ei allu boed mewn co;
Boed Ffydd a gwir amynedd,
Gael etto eu perffaith waith
Ei Blant mae Duw 'n eu gwrando
Ni chant eu siomi chwaith.

Yr Ail Ran.

BU *Israel* gynt mewn culni,
A llawer trallod blin;
Dan Law gelynion creulon,
Yn dost yn cael eu trin;
Ond pan y baent gadarna,
A mwya eu rhwysg a'i nad;
Pryd hyn rho'u Duw hwy 'n Lluoedd
Israel tan eu Traed.

9

Mawr Allu DUW y lluoedd,
Sy'n para etto 'r un;
Mae'n gweithio ymhob rhyw Oesoedd,
Uchlaw gwan Reswm Dŷn,
Pan byddo Babel uwcha
Pel rhyw Frenhines fawr
Debig o gario 'r trecha,
Pryd hyn y syrth hi lawr.

10

Daw'r newydd hyn ar fyrder,
I *Sion* is y Nen;
Gwynfyd a wele 'r Amser,
Ar Dyddiau 'n doed i ben;
Gwybodaeth bur or Jesu,
Ein hanwyl gadarn Jôr,
Yn toi y Ddaer o deutu,
Fel Dyfroedd yn toi 'r Môr.

11

Pryd hyn daw'r hen *Fahomet*
A'i Goffin Dur i lawr,
Ac yntau 'r Pab o *Rufain*,
A gwymp o'i Gadair fawr;
Juddewon a Chenhedloedd,
O eitha cyrrau 'r Byd
Arddelant Jesu ar gyhoedd,
Yn Frenhin o unfryd.

12

Na ddigalonna *Sion*,
Er maint y Cedyrn mawr,
Sy'n codi yn dy erbyn
C'ei gwel'd hwy gyd ar lawr;
Trŷ *Olwyn* (fry) *mewn Olwyn*,
Daw 'r *Arfaeth* fawr ym mlaen,
Caiff Milwyr *Michael* gano,
A *Babel* fawr ar Dan.

13

Nawr chwythwch yn yr Utgyrn,
O chwi Offeiriaid DUW,
Mae'r Ddraig er's Dyddiau lawer,
A'i Phen i gyd yn friw;
Na ddigalonwch etto,
Fe ddaw y flawen Ddydd,
I *Babel* fawr i gwympo,
A'r Caethion fyn'd yn rhydd.

14

Ac yna bydd caniadau

Na bu ar Fôr na Thir,
Hyd yma erioed o'i gradde
O bryfied cyn b'o hir,
Oen anwyl Duw 'n teyrnafu
Neb i'w wrthnebu 'n hwy
Hen *Babel* wedi trengu
Ac byth ni chyfud mwy.

Hymn. 8. *Drwg Angrediniaeth.*

1

O Arglwydd da tofturia 'n rhâd
Wrth un fy'n gorwedd yn ei Waid
Ynghanol llym Elynion Lû,
Meb ganfod Cymmorth o un tû.

2

O Angrediniaeth gelyn DUW,
'Rhon ddrylliodd f' Arglwydd mawr yn friw
Rh'odd f' Enaid athrift ar y llawr,
Tan Draed Gelynion fâch a Mawr.

3

Na fydd yn hir, tyr'd anwyl Dâd;
Rho Anghrediniaeth tan fy nhraed:
O'm holl Gadwynau tyn fi 'n rhŷdd,
I redeg ar dy ol trwy ffydd.

4

Can's Anghrediniaeth fawr ei grym,
Am rho'dd i lawr heb allu dim,
Boed hyn i'th Gyffur f' Enaid prudd,
Gwneir di 'n Gongcwerwr ar yrw Ddŷdd.

5

Er 'mod yn llwm a dû fy lliw,
Mae 'r Oen a laddwyd etto 'n fyw,
Yn eiriol a'r ddeheu law 'r Tâd,
Tros Beehaduriaid am Fyddhâd.

6

Rho Arglwydd i mi i wel'd trwy ffydd,
Mae ar *Galfaria* ca'wd y Dŷdd.

Lle

Lle ſigwyd Siol y ddraig yn friw,
Gwnawd Ffordd yn rhydd i Fynwes DUW.

Hymn. 9. *Achwyniad, yr Enaid, ar ei Elynion.*

1

Ererin wyf o'r braidd ſy'n byw,
Gan lid Gelynion o bob rhyw
Ond credu 'r wyf trwy gymmorth grâs,
'Caf ar bob Gelyn gario 'r ma's.

2

Amrywiol o Elynion ſydd,
Yn codi i'm herbyn Nôs a Dydd
Gan fawr newynu am ſy Ngwaed
Yn llwyr i ddamſing tan eu traed.

3

Am hyn o Arglwydd tyr'd yn nês,
A gwna ſy wyneb fel y prês;
Am henaid hefyd fel flam dân,
I dori trwyddynt yn ſy mla'n.

4

Tros ſ' Enaid lleda 'th Aden gréf
Gogwydda 'th Glyſt a gwrando 'm lléf
A phar i'r rhai ſy'n peru braw
I wel'd fod gennyf help gerllaw.

5

O garchar caeth rhyddha dy wâs,
Rhag clywed llais y cablwyr câs;
Sy'n rhoddi i mi lawer Loes,
Gan ſlino ſ' yſbryd Ddydd a Nos.

6

O Arglwydd Jeſu 'r bugail mawr,
Bydd yn ſy mhlaid bob mynyd Awr
Gad i mi lechu tro'i 'n y Bŷd,
Fel *Ioan* yn dy ſynwes glŷd.

7

O tynt fi mewn i holltau 'r graig,

Dyle i mi naddu'r ddraig,
Fel mwy nas medro a'i holl ſgil
Fy nenu oddiar y llwybr cûl.

Hymn. 10. *Gelwg ffydd.*

1

Pererin wyf a aned
O fewn i'r *Aiphtioidd* Wlâd
oddi yno daethum allan,
Yn Llaw trugaredd Râd
Pererin a gynhaliwyd
Hyd yma 'n rhyfedd jawn
Er bod Gelynion diwyd
Yn ſ' amgylchynu 'n llawn.

2.

Er amled yw rhifedi
'Ngelynion cryfion hu
Can Myrdd mwy Crŷf yw'r Jeſu
Hyd yma mae o'm tu
Trwy ddwr a thân fe'm ty wys
Nes do'd i ben fy Nhaith
I blith y llu ſy'n gorphwys,
Yn Nghragwyddoldeb maith.

3

Rhai fy'n ddiffygiol unwaith,
Sy'n awr mewn tawel hedd;
Yn medi gwobr helaeth,
Yr ochor draw i'r Bedd:
Eu chwerwon ſiin Gyſtyddiau,
Sy'n awr fel Perlau drŷd;
O fewn i'w hardd Goronau,
Gawd gan Jachawdwr Bŷd.

4.

Lleſg Faban wyf tan rwymau,
Sy'n teithio ar eu hôl;
Mewn Bŷd o Orthrymderau,
Am ddyfod fry i'th gôl;

Dyſg

Dyſg i mi Beroddè Cyfryde,
Fel Milwr Jeſu Grist;
Nes d'od i'r lan o'r Stormydd,
Sy'n nglynn wylofain triſt.

Hymn. 11. *Hiraeth am Ymddaith.*

1.

O anwyl Jeſu bydd i'm tynny,
O'r anialwch blin i mâs,
Rho i mi brofi o'th Oleuni,
Dyſg i mi ymnerthu yn dy Râs;
Gwyſg am danaf dy Arfogaeth,
Sef arfau fy Milwriaeth fawr,
Cleddau'r yſpryd par i'm handlo,
Nes clydo Ng'lynion oll i lawr.

2.

Ti wyddoſt Arglwydd bod Gelynion
I mi'n greulon Nôs a dydd;
Anwyl Jeſu bydd i'm nerthu,
O'u Cadwynau dd'od yn rhydd;
Tyn fi Arglwydd yna rhedaf
Yn dra chyflym ar dy ôl,
Boed dy dragwyddol freichiau am danaf,
Nês do'd i orphwys fry i'th Gôl.

3.

Duw jachâ fy Ngwrthgiliadau,
A'r holl Glwyfau fy arna i 'n llawn;
Cynnal f' yſpryd mewn cyſtyddiau,
Ngwendidau fydd yn amal jawn,
Oddiwrth bob brynti golch fy Enaid
Yn dy anwyl werthfawr Waed;
Bŷd a ſatan a phob Pechod,
Dôd yn waſtad tan fy Nhraed.

4

Dywed Arglwydd wrthyf beunydd
Mae ti yw 'm Jechydwriaeth fawr;
Rwyf yn dymyno cael ymado,
A'r Creaduriaid fy ar y llawr;

Rwyf

Rwyf yn hiraethu am fyn'd adre,
Yn nyffryn cyſgod Angau bydd
A'th ffon a'th Wialen i'm cyſuro,
Nes delo Trag'wyddoldeb ddŷdd.

5

Gwyn fyd y rhai ſy ar ben eu ſiwrnau
Ym mhlith y Seintiau yno ſydd;
Yn peraidd ganu heb ddiſtewi,
I'r anwyl Oen a'i rhôdd yn rhydd;
Corph y farwolaeth wyf fi 'n deimlo,
Yn fy mlino Nôs a Dŷdd;
O Jeſu Tyred tyn fi attynt,
Neu dyro i mi fwy o ffŷdd.

6

Ag os dy 'wyllys yw fy ngadel,
Dros enyd etto yn y Byd;
Par i'm lewyrchu fel goleuni,
A byw er clod i'th Râs o hyd;
Yn fy nghenhedlaeth yn waſnaethgar
Mewn helaeth brawf o'th Nefol hedd,
Fel halen peraidd ar y Ddaear;
Nes myn'd i'r Wlad tu draw i'r Bedd.

Hymn 12. *Cyfaill a lun yn well na Brawd.*

DUW buoſt imi 'n Arglwydd da,
Er nad wyf ond y gwaelaf;
Ymgeledd rhoddaiſt i'm o'r Nef
Yn y trallodau mwyaf.

2

Pan oedd fy ffryns am ceraint oll,
Fel rhai ar goll yn myned;
Yr hwn ſy'n codi'r tlawd o'r llwch,
Mewn triſtwch daeth i ngweled.

3

Pan oedd Gelynion o bob tu
'N ſamgylchu mewn caethiwed,

Gan lwyr fwriadu nghadw 'n gaeth,
Yr Jeſu ddaeth i'm gwared.

4

Fy ngwaith fydd bellach tra'n o'i chwyth
Rhyfeddu byth ei gariad
Trwy glod ag anglod amarch parch,
Fe yw fy Archoffeiriaid.

5

Yr Oen a laddwyd trwy fawr lid
Fe yw anwylyd f' Enaid
Rhyſgwy 'r gweddwon nerth rhai gwan
Yw 'r *Jeſu* a rhan ymddifaid.

6

Yſgybion Byd dewch bawb o'r bron,
Rhowch fawl yn llon i'r *Jeſu*;
Yr hwn a'ch gwnaeth yn fyw a'i lef
Cewch gydag ef Deyrnafu.

Hymn 13. *Golwg ar gariad DUW.*

O Arglwydd buoſt dda i'th wâs
Gân f'anrhydeddu yngwydd fy nghâs
Knoiſt i'm rendithion rif y gwlith
I'th Enw bo'r gogoniant byth.

2

Yn Rhad y gelwaiſt ar fy ol,
Pan mwyaf ynfyd o'wn a ffol
C'es glywed hyfryd Lef Mab Duw
Syn 'n gwneud i'r meirw godi a byw.

3

Fe'm denodd i'r Anialwch blin,
Ond yno 'n Rhad cês yfed Gwin;
Llefaru wrth fodd fy nghalon mae,
Can's Duw ni flina drugarhau.

4

Beth o'wn a thŷ fy Nhad yn wir,
Ond rhai o'r gwaelaf yn y Tîr;

Fy

Fy ngalw wneſt er hynny ma's
A gado ngwell o faint dy Râs.

5

Mewn aml ſtormydd ti fu mhlaid
Nerth rhoddaiſt i'm wrth angen rhaid;
A phan y bawn yn llwfrhau,
Ffordd o ddihangfa gawn yn glau.

6

O dyro etto help dy law
I'm nerthu'n ol y Dydd a ddaw,
Nes d'od i'r bywyd yn ddilai;
Lle gorphwys y llyddiedig rai.

7

Pan digalono f' Enaid gwan,
o Jeſu yna c'od fi'r lan;
Rho galon ynof fynd ymla'n,
Bydd gyda mi trwy Ddŵr a Thân.

8

Duw dyro imi nerth dy Ras
Nes o'r anialwch dd'od i ma's
O bob Caethiwed fyn'd yn rhydd
Ag ar bob Gelyn gario 'r Dydd.

Hymn. 14. *Gweddi am nerth i ddilin traed y praidd.*

FEL *Abra'm* dyſg fi adel,
Fy ngenedigaeth Wlad;
Gan roi ffarwel tragywyddol,
i dylwyth Tŷ fy Nhad;
A dilin *Iſaac*, *Jacob*
Cyd etifeddion fry;
Fel ro'ent yn Bererinion,
Ar hyd y ddaear ddu.

2

Fel *Enoch* ag *Elias*
Dderchafwyd gynt i'r Nef

Yng Nghrift y wisg briodas,
Doedd ganthynt neb ond ef;
Dysg immi droedio eu Llwybrau
Gan rodio gyda Duw;
Nes dysod i'r trigfannau,
Lle maent hwy 'nawr yn byw.

3

Fel *Joseph* a neulltuwyd,
O fysg eu frodyr hŷ
A chanthynt gynt a werthwyd,
I blith yr *Aiphtiaid* lu;
Mewn *Aipht* ag yn y Carchar;
Fel buoft gydag ef:
Bydd gyda'r Enaid egwan,
I'm cynnal a'th fraich gref.

4

Ffydd *Moses* dyro i mi
I ymwroli 'n hŷ;
Ar yr holl *Aiphtiaid* gefnu,
Heb ofni *Pharaoh* a'i lu:
Gan ddewis dioddef adfyd,
A gofyd tra 'fw'i byw
Tan groesau 'n aeddfwyn hefyd
Ynghyd a phobl Dduw.

5

Rho i'm Ysbryd *Caleb* ffyddlon,
I fentro mla'n o hyd;
Trwy ganol pob gelynion
Heb ofni mwy eu llid;
Er maint rhifedi 'r Cewri,
Cyn meddu *Canaan* Wlad;
Ca'i gwel'd hwy i gid yn trengu
Yn lluoedd tan fy Nhra'd.

6

Fel *Joshua* 'n galonnog,
Gwna fi'n Gongcwerwr llym,
I 'saeddu 'r fyddin arfog
Er cymmaint yw eu grym;

rho-

Rho nerth i faeddu yſbrydion
Nefolion ddrygau mawr;
Nes cael fy holl Elynion,
O'r bron i gyd i lawr.

Hymn. 14. *Yr Ail Ran.*

1

Amynedd *Job* rho i mi,
I'moſtwng tan dy law;
Mewn addas bryd ca' 'nghodi,
Yr amſer etto ddaw,
Fy mhroſi a'm ceryddu,
Blinderau rif y gwlith,
Dyſg i mi ddweyd pe'm Lleddyd
Gobeithiaf ynot byth.

2

Os bydd Perth'nafau 'n cefnu,
Fel rhyw eſtroniaid crin;
Am gadel innau i nychu,
Mewn rhyw ddoluriau blin;
Gelynion a chyfeillion,
Pob un yn rho'i i mi 'ſriw:
Gwnae i'm dd'weyd ym mhob trallodion
Mae mhrynwr etto 'n fyw.

3

Does un dâl bwyſo arno,
Ond ſhilo Brenhin hedd:
Mi glywes ſôn am deno,
Yn rhad c'es wel'd ei wedd:
Mewn llwch a llydw bellach,
Fy Enaid llecha lawr
Duw Nerth i roi 'r gogoniant
I gyd i'th Enw mawr.

4

Fel ufudd Dduwiol Ddafydd,
Dyſg i mi waeddi ma's
Fy Nuw dan bob rhyw ſtormydd,

A ym nerthu yn dy Râs:
Tros fyrriau trwy fyddinoedd,
Cryfha fy Enaid Prŷdd;
Yn d'enw Duw y Lluoedd
Rho i mi gario 'r Dydd.

5

Fel Sal'mon dyſg fi ddewiſ
Doethineb i mi 'n rhan;
Bod fel y ſarph yn gyfrwys
Diniwed ymhob man:
Os caf 'fy mhrofi a hawdd-fyd,
Cyn diwedd Dyddiau ſoes;
Nad i mi gilio oddi wrthyt,
Na 'mado oddiwrth dy groes.

6

Pa un a'i cyfoeth tlodi,
Sy'n dy Ragluniaeth im,
Jach claf neu mewn caledi,
Nad i mi rwgnach dim:
Duw Gwna fi'n ffyddlon ddiwid,
A bodlon jawn o hŷd;
Nes delo Angau i'm ſymmyd,
I maes o hyn o Fŷd.

Odl Arall 15

YN awr does gennyf ond corph breulyd,
Caf gorph ar fyrr ſel fy anwylyd;
Ag Enaid hefyd mewn hwyl Nefol
I foli 'r Jeſu yn dragywyddol;
Gwyn fyd a wele'r borau 'n dyfod,
i yſgwyd ymaith fy holl ſorod,
Pen gronyn bach mi af yn jach,
'Ddaw Clefyd mwy 'm cyſarfod;
'Nol aros 'chydig yn y Beddro'd,
Caf godi ar ddiſglair wedd fy mhriod.

Na

2

Na fydd yma ond pererin
He'd fy Enaid na hir 'rofyn;
Dilyn ol yr hen ddieithriaid,
I maes o'r Byd a'r holl Greaduriaid;
Y rhai a wele 'n fraint i ddiodde,
Dros eu Harglwydd bob rhyw boenau,
Bodlonent hwy i bob clwy,
Rhoi lawr eu bywydau;
Yn awr y maent ar ben eu ſiwrnau,
Fy Enaid rhodia dithau eu llwybrau.

3

Crwydraid oeddent mewn crwyn Geifir
A chrwyn defaid hyn ſydd ſicir
Drwg eu cyflwr heb fawr ſwcwr,
Nid fel Difes yn ei barlwr;
Yn nhyllau ag Og'feydd y ddae'ren
Dros enyd bach bu Llettŷ llawen
Nid oedd y Byd yr un pryd
Deilwng i'w cynnwys
Yn awr y maent yn cyſon orphwys
Ym mynwes Abraham ymmharadwys.

4.

Dyma Lwybrau yr hen Seintiau,
Dilin Jeſu dwyn ei Nodau;
Dibryſio 'r Byd a'i ſothach gweigion,
Caru 'n gyſon Frenin *Sion*;
Y rhain heb dderbyn yr Addewid:
Yn Lluoedd aethant tu a'r Bywyd,
Byw trwy Ffydd oe'nt bob Dydd;
Gan ddiſgwyl y *Meſiah*,
Yn awr maent gyd ag ef yn gwledda,
Wedi gorphen ar eu gyrfa.

5.

Oh pa faint mwy yw 'n Breintiau rwan,
Ag etto 'n Ffydd o pa mor Egwan,
Doedd ganddynt hwy ond Seren foreu,
Mai gyda ni yn haſ-ddydd goleu,
Efengyl Jeſu ſy'n tywynu:

Trwy

Trwy 'n Dyffrynodd oll o deutu,
O'th anghred cas tyr'd i ma's,
F'enaid pa'm y nychu,
Y flwyddyn Jubil ddaeth o deutu,
Mae'n llawn bryd i ddechreu Canu.

6.

Chwi waredigion cywyr galon,
Sydd yn caru Brenin Sion;
Rhowch heibio rwgnach ag amheuon,
At Orfedd Jesu dewch yn ëon,
I lawr a'ch T'lynau fydd yftyddiau:
Ar yr helig mâs o hwylau,
Gantorion dewch llawenhewch,
Chwithau Gantoresau;
Mae yn y Nefoedd i ni dwrnau,
O cenwch iddo ber Ganiadau.

7.

Mae'ch Pechodau wedi madde,
Er mwyn Enw 'r Oen fu'n diodde,
Yr hwn a ddrylliwyd am ein beiau,
Jachawd ninnau trwy ei gleifiau,
Darfydded am bob Enw weithian:
Ond Enw Jesu Mawr eu hunan,
Yr hwn fy'n doed yn ddioed,
I hôl eu briod adre;
Forwynion trwyfiwch bawb eich Lampau,
Mae Tragywyddoldeb wrth ein Dryfau.

Hymn. 16. *Gweddi am Nerth i brynu 'r Amfer.*

1.

BYR yw fy Oes am dyddiau 'n ddrŵg,
Yn myned heibio fel y mŵg,
O Ddduw yn gymmorth i mi bydd,
I weithio tra mai 'n para yn Ddŷdd.

2.

Gan brynu 'r Amfer byrr fy'n ôl,
Ag aid eu waftio fel rhyw ffôl; Try-

Tryſori yn y Neſoedd draw,
Can's Tragywyddoldeb ſydd gerllaw.

3

Rho i mi nerth tro'i yn y Byd
I fyw er Clôd i'th Ras o hyd;
Gan ddyſal rodio llwybrau hedd,
Nes myn'd i orwedd yn y Bedd.

4

Os clefyd wrthyf fydd ynglun,
Dyſg imi nabod gwaeledd Dŷn;
Yr hwn ſy'n gwiwo yn y man,
Fel gwiwa rhyw lyſeuyn gwan.

5

Yn fwyd a diod boed i mi,
I weithio gwaith fy Arglwydd fry.
Ar fyr daw 'r Nôs a heibio 'r Dydd,
Rhaid myn'd i orwedd yn y Pridd.

Hymn. 17. *Gweddi un dan deimlad o'i wreiddedd a'i anigonoldeb i ddwyn cenadwri tros Dduw.*

Bydd imi 'n Enau Arglwydd cu,
I wawdd trieni iid attad ti;
D dyſg fii gyhoeddi mi's
Gyſlawnder dy anfeidrol Ras

2

Pwy ſydd ddigonol (pwy) o Dduw?
Iſefyll rhwng y meirw ar byw
Gwahaniaethu rhwng y brwnt a'r glân,
Vynebu g'lynion fawr a mân.

3

Jeb ond y rhai a ddyſgech ti,
hoi iddynt gymmorth oddi fry;
hoi tafod ſel pin 'ſcrifen Clau,
u cynnal beunyd l a'u cryſhau;

4

By achos mawr o Arglwydd dôd,
'N fwy bwyſo arnaf nag eriôd;
Toſtyri wrth weld Eneidiau o hyd
Yn cyſgu 'n eſmwyth tan dy lid.

5

Nerth oddi fry o dyro wrth raid,
Wrth ymdrin d' air bydd imi 'n blaid,
A rho dy Fendith anwyl Dad;
Fel gwlith i ddiſgyn ar dy hâd.

6

Pan byddw'i tan gymylau du,
Gelynion yn f'amgylchu 'n llu;
O rho dy Fraich im rhwyſtro i lawr
Dal fi o hyd a'th allu mawr.

7

Ac yna gwaetha Uffernol haid,
A phawb ſy'n ſefyll yn eu plaid;
Pa'm 'r ofnaf mwy mae Duw o'm tu
Trwy nerth ei Râs gorchfygaf chwi

Hymn. 18 *o flaen pregeth*

O Arglwydd tirion tyr'd i lawr;
Rho ini gael y Fendith fawr
Rho fendith ar dy air dy hun,
Rho Fendith *Jacob* i bob un.

2

Os rhoddi ond Bendith ar dy air,
Calonau yn ddrylliedig cair;
Rhai 'n gwaeddi maes ag uchel gri
Trugaredd Arglwydd do'd i ni.

3

Rho 'th yſbryd fel y dyddiau gynt
I Chwythy fel rhyw Nerthol wynt;
Nes bo'n heneidiau oll ar dân,

Yn

Yn moli Duw mewn Nefol gan.

4

Yn dirion Jesu bydd o'n rhan,
A chôd y gweiniaid oll i'r lan;
Er adeiliadaeth (yma bydd)
Yn y ſanctteiddiol werthfawr Ffydd.

5

Gwna th air ſel gordd i ddryllio 'n ſan
Galonau Creigydd ſel o'r blân;
Glyned dy Saethau Jesu mawr
O fewn d' Elynion oll yn awr.

6

Tra drwg Trugaredd ſo ar led,
Duw argyhoedda 'r Dorf ddi gred;
Ar ſyrder doed y llawen Ddydd,
I'r Carcharorion ſyn'd yn rhydd.

Hymn 19. *O wahoddiad ar ol Pregeth*

1

Dewch blant afradlon tua thref
Mae'ch Tâd yn gwawdd ag uchel lef
Y wledd ſy'n barod yn dâi wâd
A phob peth ynthi i chwi'n Rhad.

2

Cyfaill i byblicanod trift,
A'u hanwyl ffrynd yw Iesu Grift
Yr Oen fu farw gynt mewn Gwaed
Sy nawr yn cynnig hedd yn rhad.

3

Mae pob awdurdod yn ei law,
O Uffern drift i'r Nefoedd draw
Maddeu Pechodau rif y gwlith
Does terfyn ar ei gariad byth.

4

Mae 'r Oen yn gwawdd o entrych nef,
O bechaduriaid clywch ei Lef,
Fe a'ch cymmod chwi a'i Dâd.

Fe olch eich Henaid yn ei wa'd.

5

Wel dyma'r Oen sy'n maddau bai
O deuwch atto chwi bob rhai;
O llechwch yn eu glwysau trist,
Ei enw ef yw Jesu Grist.

6

Mae'r gwawdd ar led o dewch mewn pryd
'Rhag i'r *Jehofah* mawr mewn llid
Gyhoeddi fry o ganol nêf,
Na chewch chwi brofi o'i Swpper ef.

Hymn. 20. *Tragywyddoldeb.*

DEWCH bechaduriaid o bob rhyw,
Edifarhewch a dewch at Dduw,
Rhag myn'd i'r ffau am bechod ffôl
Dros Dragywyddoldeb maith sy'n ol.

2

O faint 'o jengctyd sy'n ein gwlad
Yn gwrthod Crist a'i werthfawr Wa'd,
Cymmerwch gyngor Jenctyd ffôl,
Mae tragywyddoldeb maith yn ôl.

3

O jenctyd jenctyd sydd heb Râs,
Yn dilyn cwrs o bechod câs,
Ni pheri 'n hir chwerthiniad ffôl,
Mae Tragywyddoldeb maith yn ôl.

4

O chwi rai Jeuaingc sydd beb ddoed,
I nabod Duw ynghrist erioed;
Mae 'r Jesu 'n llefain ar eich hôl,
Cyn Tragywyddoldeb maith sy'n ôl.

5

A chwithau 'r henaint sydd heb hedd,
A'ch traed yn rhodio glan y Bedd,
Beth dal y Byd er cael llon'd côl,

Mae Tragywyddoldeb maith yn ôl

6

O chwi ſydolion mawr eu chwant
Rhaid myn'd ar fyr oddi yma i bant,
A gado 'r byd i gyd ar ôl
Dros Dragywyddoldeb maith ſy'n ôl

7

A chwithau rhai ſy'n byw ar bliſe,
Heb gael erioed y ſanctaidd wiſg;
O coſiwch hyn forwynion ffôl
Bod tragywyddoldeb maith yn ôl

8

A chwithau 'r hen wrthgilwyr triſt
Sy'n para i ail Groeſhoelio Criſt
Bydd hyn yn chwerw Dâynion ffôl
Yn nhragywyddoldeb maith ſyn ôl.

9

A chwithau rhai ſy'n llawen driſt,
Ar hyd y ffordd yn canlyn Criſt
Ar fyr cewch orphwys yn eu gôl
Tros Dragywyddoldeb maith ſy'n ôl

10.

Cewch weled *Abraham Iſaac* llon
A *Jacob* wych a'r Saint o'r bron,
Ymblith y llu ni bydd un ffôl
Dros Dragywyddoldeb maith ſy'n ôl.

Odl 21 *Trueni y rhai ſy'n adeiliadu ar y tywod*

1

Yng nghariad Wleddodd y Duwjolion
Mae amrywiol frychau duon,
Cymylau gweigion a diddyfroedd
Plant y tellditi had terfyſgodd:
Y rhai aethant i ffordd Balaam,
Nid cywyr feibion o ffydd *Abra'm*
Nid Pobl hu ſyddant fry,

O flaen y Brenin Jeſu,
Pan del y Lluoedd mawr i fynu
i entrych Nef i'w Cyfiawn Farnu

2

Oh chwi rai deddfol rhith grefyddol,
Dirmygwyr Criſt a'i waed Anfeidrol,
Rhai oſlyd aflan a difywyd.
Wynebau teg Calonnau gwaedlyd,
Ar fyrr daw gwyntyll Brenhin Jesu,
I lwyr lanhau ei lawr dyrnu;
Tân ar frys lyſg yr ŷs,
Manol ddetholyr,
Defaid Criſt oddi wrth y geifr,
Pryd hyn bydd gwae i'r holl Ragreithwyr.

3

A chwithau ſy'n proffeſu rhydd-did
Ond caethion pechod yr un ffynyd,
Criſt mewn proffes nid mewn calon,
Carwyr gwobr rhai anghyfion,
Beth yw hyn ond byw mewn rhyfig,
Can's nid rhaid i'r jach wrth feddig,
Eich llygaid ſydd nôs a Dydd
Yn llawn godineb atgas
Cyſanu CRIST a'r min fel *Judas*
A'i werthu fel gwnae'r bradwr ſyddas.

4

Forwynion ffol heb ddim ond lampau,
Yn eich lleſtri ceiliwch ole;
Ar Ddynion lawer o bob graddau
Mae'i wedi mynd yn Nos er's Dyddiau,
Mae'r priod fab ym mron a'galw
Pryd hyn bydd gwae i chwi rai meirw,
Fel lleidr daw mas o law.
Dydd anwyl briod 'ſ Enaid;
Ar wartha Pawb o'r anffyddloniaid,
O dyhunwch bechaduriaid.

Yr Ail Ran, 22. *Braint y Ffyddloniaid.*

1

ONd chwi rai ffyddlon gywyr galon,
Rhai di ddichell tyner tirion,
Nad oes man na neb a'ch boddia,
Ond yn unig y *Meſſiah*,
Y rhai ſydd werthfawr yn ei olwg,
Ar fyr cyhoeddir chwi yn yr ymlwg
Cryf a gwan dewch i'r lan,
I *Ganaan* i'ch Ganed:
I chwi mae 'r Dryſor yn agored
O mor fawr yw'ch Braint ffyddloniaid.

2

Cyfod *Sion* cymmer galon,
Cai wiſgo 'r anllygredig Goron,
Dyw'th gyſtydd ond tros ddeng Niwrnod
I lanhau dy aflan ſorod:
Ag er profi dy rafyſau,
Duw fy'n byro eu ddiſglair Berlau,
Lleſtri Parch wrth eu arch
Yw pawb ſy'n credu
Braf fydd gweld yr hardd gwmpeini
Ar fyr fydd ar ddeheulaw 'r Jeſu.

3

Pryd hyn y d'wed y Brenhin cyfion
Dewch i mewn fendigedigion
Arhoſodd gyda mi hyd angau,
Yn fy mawrion gyfyngderau,
Rwyf yn Ordeinio i'chwi Deyrnas,
Dewch gwmpeini 'r hardd briodas,
Bwytewch mwy yn ddiglwy
Ar fy Mwrdd Fara'r bywyd
Ufwch Win fy nghariad hefyd,
Tragywyddol ffarwel i bob gofyd

4

Llawen wyf wrth gofio 'r Amſer
Can fy Enaid daw ar fyrder,
Had *abraham* geſglir oll i fynu,

O'r lle maent wedi ei gwasgaru:
Fy yspryd gwan om mewn sy'n llame,
Wrth gredu byddai yn ei cwmp'ni
Yn canu 'n un yn gyttun,
I'm Brenhin yn *Sion*:
Heb ddim terfysc ymrafaelion,
Byth mwy ymhlith y pererinion.

5

Pryd hyn pob un sydd am y lleia:
Yn llewyrch wyneb y *Messiah*;
Gan waeddi allan am yr uwcha
Myfi oedd y pechadur mwya:
Etto 'n rhad y ces Drugaredd,
Daetho 'i ben sy nhaith o'r Diwedd,
Wedi bod tan y Nôd
Er gwrth giliadau:
Tragywyddol glod i'r Oen fu'n diodde
Eu chwerw hoelio am sy meiau.

6

Dyma gân a'thyma elfen,
Y saint 'nol mynd tu draw 'r *jorddonen*
O'i mewn yn awr mae 'r Egwyddorion
Wedi planu yn eu calon
Ond yno 'n berffaith cant ddechafu
A moli 'n croesholiedig Jesu
Gan roddi lawr bob yr awr
Bawb eu coronau,
Wrth draed yr anwyl Oen a'u carse
Trwy bob math o gysyngderau.

Hymn. 23. *arall*

1

DUW bydd yn nerth i'm benaid gwan
O'm holl ofidiau cod fi'r lan
Llewyrcha arnaf d' wyneb pryd
A bydda sy wrth sy modd o hyd.

Pob

2

Pob cyſtydd dderfydd cyn bo hir
'Nol myn'd tu fewn i'r *Ganaan bûr*
Pob un o'r ſeintiau yno ſydd
Yn moli 'r Oen ag Enaid rhydd.

3

Rhai fu'n cyd deithio gyda ni,
Sy'n awr yn gorfoleddu fry
Eu gweled cawn cyn dyddiau maith.
Yn canu 'n jach ar ben ei Taith.

4

Gorchfyg'ſant hwy trwy waed yr Oen.
A thrwy bur air tyſtiolaeth Jo'n
A dillad gwynion gawſant hwy
Ni welyr mwyach arnunt glwy

5

Maent yn rhyſeddu 'nawr o hyd,
Wrth weled gwedd Jachawdwr byd
Caru a chanu yw ei gwaith
Dros eitha tragywyddoldeb maith

6

Maent yno 'n gweled Tri yn un,
Duw wedi gwiſgo natur dyn
Ac fallau ol yr hoelion dûr
Fu trwy ei Draed a'i Ddwylo pûr.

7

Yſgatfydd hefyd tan ei Fron,
Ceir gweled ôl y Waywffon:
P'odd bynna; gwaith y Saint heb boen
Fydd canu *Teilwng ŷdych yw 'r* Oen.

8

Câf yno wel'd mewn hyfryd Hynt,
Y Pen, a Drain Goronwyd gynt,
A'r wyneb boerwyd arno 'n wir,
'N anfeidrol deg yn Salem Dtr,

9

Wrth feddwl hyn fy Enaid mae,
Mewn ſyndod 'nawr yn llawenha'u,

Y

Yn rhad ces brofi rhan o'r wledd
Sydd gan y ſaint tu draw i'r Bedd.

10

Fy Hiraeth bellach trwy fy oes,
Fydd 'nabod Jeſu a grym ei groes:
O F'enaid, nac ymffroſtia mwy,
Mewn dim ond Ef a'i farwol Glwy.

Hymn. 24 Math. 11 25 26. *Yr Eſengyl yn guddiedig i'r Doethion a'i datguddio i rai Bychain.*

1

Yrhai a ddyſgwyd gan y Tâd,
Sy'n dôd at Jeſu am jachâd;
Trwy wel'd eu colledigaeth driſt
A'r ſechydwriaeth oll ynghriſt.

2

Ni all neb dderbyn y Mab rhâd,
Ond rhai a ddyſgir gan y Tâd;
Ar Tadni nebydd un Dyn (clyw,)
Ond ſawl a ddyſgir gan Fab Duw.

3

Ein harglwydd gynt a lawenh'odd,
Gan foli Duw mewn geiriau ar godd;
O Dad rwi'n diolch i tydi,
Creawdwr Dae'r a Nefoedd fry.

4

Boed clod i'th allu a'th gariad clur,
Am lwyddo fy athrawiaeth bur;
Trwy roi 'r babanod brofi blâs,
Dyſnderodd dy anfeidrol Râs.

5

Ond y gogoniant hyn i gyd,
Cyddiedig yw i ddoethion byd,
Tywyſog y tywyllwch ſydd,
Yn dallu eu llygaid nos a dydd

Dirgel-

Digelwch prynied dynol ryw,
I'r Doethion llwyr gyddiedig yw
Eu balchder au rheſymau ſy,
'N eu cadw mewn tywyllwch du.

7

O Dad fel hyn mae 'th wyllys di,
A'th ddewis Arfaeth gadarn fry
I blygu 'r Beilchion mwya'i parch
I'r llwch y cwympant wrth dy arch.

Hymn. ar Rhuf. 8. 33 34. &c. *Pwy a rydd ddim yn erbyn Etholedigion DUW.*

1.

PWY ddamnia 'r Etholedig rai,
Can's Duw ſydd yn eu cyfiawnhau,
Eu pechod oll mewn angof wlâd,
A ſoddodd mewn Trugaredd râd.

2.

Pwy all i Uffern farnu 'r Saint,
Can's Jesu yw eu Pen a'u braint.
Eu Jechydwriaeth ſawr a'u Ple,
By ſarw, cododd yn eu lle.

3.

Rhai brynodd Duw a'i briod Waed,
Rhai garwyd a'r fath Gariad rhad;
Pwy b'le mae 'r hwn a fentra (pwy?)
Ddweyd y cant eu damnio mwy.

4.

Mae 'r Oen yn dadleu 'n awr yn hy,
A'u henwau ar eu Galon fry;
Eu dyled talodd idd ei Dad,
Ni chollur un o werth ei Wa'd.

5.

Nid dim all Dynion G'lynion hu,
Na holl bwerau Uffern ddu;
A altra heddwch Brenhin Nef,
Ennywyddol yw ei gariad ef.

B

3.

Er Newyn noethni Cleddau blin,
O ddefaid CRIST ni chollur un;
Can's rhoddodd arnynt hwy ei nôd,
Mwy na chongcwerwyr y cant fod.

7.

Mewn ffydd y mae gorchfygol rym,
Sy'n congcro'n wyneb Angau llym;
CRIST yw ein Bywyd hud y Wraig,
Ni ſodda neb oddiar fath Graig.

Hymn. 25. *Y Credadyn Tlawd yn Gyfoethog.*

ER nad ydwyf ond tlawd a gwan,
Yr JESU yw fy Nerth a'm rhan;
Ag er fy mod heb feddu dim,
Er hyn pob peth ſy'n eiddo i'm.

2.

Mewn Cyfyngderau tan fy nghlwyf,
Er hyn nid mewn anobaith wyf;
Pan bwyf ar lawr mewn ofn a braw,
Pryd hyn fy ARGLWYDD ſydd ger llaw.

3.

Duw 'n fy ngheryddu 'n dirion mae,
Pan haeddu marw rwi'n ddilai;
Er bod fy meiau rif y gwlith,
Nid yw yn fy llwyr adel byth.

4.

Tebygol yw bod haeddiant fry,
Un cyhawn dros anghyhawn du,
Yr OEN ſu farw gynt mewn Gwa'd,
Sy 'n eiriol drofof gyda 'r Tad.

5.

O JESU boed i'th Gariad Mawr,
I blygu f' Ypryd balch i lawr;
Tra caffwi fyw ag yma fod,
Rho nerth i ſeimio mas dy Glod.

TEREYN.